# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com £1

**Gorffennaf 2026 – Cyfrol 11 – Rhifyn 10**

## Trem yn ôl ar fis prysur



Cafodd Clwb Pêl-droed Llandyrnog ddiwrnod hwyl llwyddiannus iawn ar ddechrau'r mis. Un o'r digwyddiadau oedd gêm bêl-droed rhwng timau'r Presennol a'r Gorffennol. Tîm y Gorffennol enillodd, 3–1.




Daeth Taith Parch y Gwarchodlu Cymreig 2026 i gofeb y Gwarchodfilwr Peter Edwards yn Ysgol Bryn Clwyd.



Roedd taith dractorau Dyffryn Clwyd, wedi'i threfnu gan rai o Landyrnog, yn un hynod o lwyddiannus. Codwyd £10,000 tuag at Feiciau Gwaed Cymru.

# Sioe 2026

Mae rhaglen y sioe wrthi'n cael ei argraffu ar hyn o bryd a byddwn yn ei dosbarthu tua chanol y mis. Ein bwriad yw ei danfon i bob tŷ yn yr ardal, ond os byddwn yn eich methu chi, gallwch gael copi o siop y pentre, gan yr Ysgrifennydd yn Cross Keys, neu fersiwn electronig o llandyrnogshow@gmail.com.

# Newyddion y pentre

**Croeso** i Andrew a Nanette Davies i Fron Deg, Lôn Goch.
**Diolch** i bawb a gefnogodd bore coffi Capel y Dyffryn, gan godi'r swm anrhydeddus o £520 tuag at gost cynnal a chadw'r adeiladau.
**Llongyfarchiadau** i Beth (Penybryn) a Dafydd, Aberystwyth ar enedigaeth mab bach, Gronw Emlyn.
**Cyfarchion pen blwydd** i Glenna Benton a ddathlodd cyrraedd y 90 yn ddiweddar.
**Gwellhad buan** i Edith Hughes ar ôl iddi syrthio.
**Cydymdeimlwn** â Steve Juckes Hughes, Clos Hamdden, a'r teulu, ar farwolaeth sydyn ei fam.

## BORE COFFI

*At Hosbis St Cyndeyrn*

**Yn Neuadd y Pentre**
**Dydd Sadwrn, 25 Gorffennaf**
**am 10 o'r gloch**
- ***Te, coffi a chacennau cartre***
- ***Gwobrau raffl gwych***
- ***Dewch i gefnogi achos lleol arddercho***

Byddwn yn gwerthfawrogi rhoddion o wobrau raffl, neu gacennau yn fawr.

**Diolch am eich cefnogaeth – byddaf yn cerdded i ben yr Wyddfa ar benwythnos 1st ac 2il Awst 2026,**
***Jane Ford***




## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099
info@llandyrnogshop.com
ShopLlandyrnog
Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**
Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Mer 1af | Peintio a phaned<br>Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 12–3pm<br>7pm |
| Llun 6ed | Grŵp gweu<br>Gild Trefoil | 10am<br>2pm |
| Maw 7fed | Paned a sgwrs | 10am |
| Mer 8fed | Undeb y Mamau | 2pm |
| Llun 13eg | Grŵp gweu | 10am |
| Llun 20fed | Grŵp gweu | 10am |
| Maw 21ain | Paned a sgwrs<br>Cyngor Cymuned | 10am<br>7pm |
| Llun 27ain | Grŵp gweu | 10am |
| Mer 29ain | Peintio a phaned | 12–3pm |

# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| Sul 5ed | Boreol weddi | **9.30am** |
| Sul 12fed | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre | 3.30pm |
| Sul 19eg | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| Sul 26ain | Cymun bendigaid | **9.30am** |

# Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 05/07 | 10am | Gwasanaeth yr Ofalaeth |
| 12/07 | 11am | Parch. Andras Iago |
| 19/07 | 10am | Trefniant lleol |

**Bore Coffi**

**Tuag at eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan**

**Dydd Sadwrn, 18 Gorffennaf, 10–11.30am**

**Croeso i bawb!**

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Mer 1af | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 4ydd | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 6ed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 7fed | Pwyllgor y Sioe Flodau | 7–8pm |
| Mer 8fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 11eg | Bore coffi – Codi arian at gerdded i ben Kilimanjaro | 10–11.30am |
| Sul 12fed | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 13eg | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 14eg | Drama diwedd blwyddyn Ysgol Bryn Clwyd | 5.15 |
| Mer 15fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 18fed | Bore coffi – yr Eglwys | 10–11.30am |
| Llun 20fed | Côr | 7.30–9.30pm |
| Sad 25ain | Bore coffi – Hosbis St Cyndeyrn | 10–11.30am |
| Llun 27ain | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 28ain | Clwb seryddiaeth | 7–9pm |

I logi'r **Ystafelloedd Coco** cysylltwch â Carolyn Langford-Jones: 01824 790122 neu ar e-bost: cocoaroomsbookings@gmail.com
I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

# Taith Dractorau Dyffryn Clwyd

Eleni, roedd taith tractorau a *Land Rovers* Dyffryn Clwyd 2026 yn mynd o Ruthun i Stad y Rhug am ginio, ac yn ôl. Roedd hwn yn ddigwyddiad heriol iawn i'w drefnu, gan fod angen sicrhau bod pawb yn mwynhau'r diwrnod ond hefyd yn teimlo'n ddiogel. Daethom ni i gytundeb â Beicwyr Gwaed Cymru, a nhw wnaeth y trefniadau ar gyfer y digwyddiad, gyda'r holl elw yn mynd er budd yr elusen honno – a phawb ar eu hennill!

Bu'r trefniadau'n llwyddiant ysgubol – daeth chwech aelod o Feicwyr Gwaed Cymru, a phob un yn gyfarwydd iawn â ffyrdd gwledig Gogledd Cymru ac yn gwybod yn union ble roedd angen y stiwardiaid a phryd. Rhaid diolch yn ddiffuant i Huw 'Warrington' Williams, a gydlynodd y gwaith. Yn enedigol o Gorwen ac yn feiciwr modur brwd, roedd yn 'nabod y lonydd gwledig fel cefn ei law. Mae'r llun isod yn dangos pa mor dda roedd y trefniadau diogelwch. Mae ein diolch i Heddlu Gogledd Cymru, oedd yn monitro'r digwyddiad drwy gydol y daith ac yn barod i gynorthwyo pe bai angen.

Roedd yn syndod deall faint o bobl oedd erioed wedi bod ym Melin y Wig o'r blaen, yn cynnwys ein Cynghorydd Parry sydd wedi teithio i bedwar ban byd! Roedd y teithwyr, rhai ohonynt wedi dod o Ynys Môn, yn ddiolchgar iawn am y cerbyd blaen oedd yn arwain y daith, ac am fynd ar gyflymder cyson, yn ogystal â chael cynllun B oedd wrth gefn! Roedd y cynllun hwnnw'n cynnwys saethau melyn wedi'u gosod ar hyd y ffordd i roi'r cyfeiriad cywir. I ddeud y gwir, mae hi mor hawdd colli'ch ffordd yn y rhan honno o'r wlad ag ydi hi yn y 'triongl' enwog rhwng Llandyrnog, Llangynhafal a Gellifor. Mae chwedlau lleol yn honni bod rhai pobl wedi mynd ar goll yno'n rhywle, a heb gael eu gweld fyth eto!

Roeddwn i wedi cael caniatâd yr Arglwydd Newborough i gael cinio yn Stad y Rhug. Roedd diwrnod agored yno, a chawsom groeso cynnes iawn. Beth sy'n denu plant at dractorau, dudwch? Y munud y dechreuodd un plentyn chwifio ei ddwylo, dechreuodd rhai o'r tractorau enfawr hyn seinio eu cyrn uchel a thrawiadol!

Roedd diwrnod agored Stad y Rhug yn llwyddiant mawr, a theithiau o amgylch y fferm yn rhoi cyfle i ymwelwyr ddeall mwy am gynhyrchu bwyd a realiti bywyd ffermio modern. Os cewch gyfle i ymweld, mae'n werth galw heibio am baned o goffi a gweld



# Taith Dractorau Dyffryn Clwyd: parhad



y siop fferm – bwyd o safon go iawn.

Ar ddiwedd y cinio, cefais gyfle i ddiolch yn bersonol i Arglwydd Newborough am ei letygarwch. Yna ffwrdd â ni unwaith eto wedi cael digon o fwyd a diod – taith o dair milltir ar ddeg yn ôl i Ruthun. Aethom ni tuag at Wyddelwern cyn croesi'r A494 ger pentref bach Bryn Saith Marchog, un o'r enwau hyfrytaf yng Ngogledd Cymru yn fy marn i. Mae Bryn Saith Marchog hefyd yn gysylltiedig â'r dringwr ac anturiaethwr Cymreig enwog, Eric Jones.

Ar y ffordd adref, cawsom wahoddiad caredig i alw heibio i Dafarn Glan Llyn yng Nghlawddnewydd. Er y byddem wedi hoffi derbyn y cynnig hael hwnnw, bu'n rhaid inni wrthod oherwydd yr heriau o barcio tua wyth deg o dractorau ar hyd prif ffordd brysur, yn enwedig gyda Heddlu Gogledd Cymru yn monitro'r digwyddiad. Serch hynny, dangosodd pobl dda'r Glan Llyn eu cefnogaeth mewn ffordd arbennig iawn – trefnwyd casgliad sydyn a chyfrannwyd £40 i'r achos. Roedd y teithwyr yn cyfarch y bobl leol drwy chwifio eu breichiau a seinio'u cyrn, ac roedd yr holl gefnogaeth gawsom yn gwneud i'r holl waith trefnu deimlo'n werth chweil. Dyma'r math o beth sy'n dangos cryfder cymuned wledig, yn union fel sydd gennym ni yma yn Llandyrnog.

Diolch i gyfraniadau masnachol hynod hael gan nifer o noddwyr a busnesau lleol, codwyd y cyfanswm anhygoel o £10,000 ar gyfer Beicwyr Gwaed Cymru.

*Bryn Davies*

# Grŵp Cyfeillgarwch

Yn ein cyfarfod ym mis Mehefin, ein siaradwraig wadd oedd Mrs Mary Steel a soniodd am ei chyfnod yn dysgu yn Nigeria – yr anawsterau a'r adegau doniol wrth weithio yno yn yr 1960au.

Wedyn gweinwyd paned a bisgedi, a phawb yn mwynhau sgwrs.



Fe gawson ni ddiwrnod **Ascot i'r Merched** ym Mhlas Dolben. Dyma'r merched yn eu dillad crand a'u hetiau'n mwynhau te pnawn.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 7 Gorffennaf am 7 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco. Croeso i bawb.


**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

# Dod i adnabod. . . Roger Warner

*Rhowch ychydig o'ch hanes.*

Rwy'n dod o Surrey yn wreiddiol. Roedd fy nhad yn optegydd yn Llundain a chafodd ei ddyrchafu i swydd yng Nghasnewydd, felly fel plentyn treuliais bum mlynedd yn byw yng Nghaerllion cyn i 'nhad gael ei symud yn ôl i Lundain. Roedd hynny ychydig ar ôl i mi ennill ysgoloriaeth i Ysgol Trefynwy, felly treuliais y saith mlynedd nesaf yn lletya yno, cyn i mi fynd i'r brifysgol yng Nghaerwysg i astudio'r gyfraith.

Treuliais y rhan fwyaf o fy oes weithio yn yr heddlu yn Wiltshire. Roedden ni bob amser wedi byw mewn ardaloedd gwledig ac ar ôl ymddeol, daethon ni o hyd i Hafod Elwy, i fyny ar Fynydd Hiraethog a does nunlle mwy gwledig na hynny. Buom yn byw yno am ddeng mlynedd yn rhedeg tyddyn bach a busnes gwely a brecwast, cyn dychwelyd i blith pobl i Landyrnog.

*Rydych chi'n brysur iawn fel ysgrifennydd y sioe – faint o waith mae'n ei olygu?*

Yn amlwg, mae yna ychydig ddyddiau prysur iawn cyn y sioe ei hun, ond mae'r paratoadau'n dechrau ym mis Mawrth: sicrhau bod yr holl ddosbarthiadau, y beirniaid a'r stiwardiaid wedi'u trefnu; dod o hyd i hysbysebwyr, noddwyr, Llywydd y Sioe ac ati. Yn ffodus, mae gennym grŵp o wirfoddolwyr sydd i gyd yn chwarae rhan bwysig ac mae'r sioe bob amser yn dod at ei gilydd yn y diwedd (gan groesi fy mysedd!).

*Pa dri lle sydd ag arwyddocâd arbennig i chi?*

1. Trefynwy, lle treuliais saith mlynedd fel bachgen ysgol mewn lle prydferth, ac yn enwedig Afon Gwy, gan mai rhwyfo oedd fy mhrif gamp.
2. Chantmarle, lle bach iawn yn Dorset a oedd yn ganolfan hyfforddi ranbarthol i recriwtiaid heddlu. Treuliais ddwy flynedd o fy ngyrfa gyda'r heddlu yno fel hyfforddwr a dyna lle y gwnes i gyfarfod â fy ngwraig Wendy, a oedd yn recriwt newydd. Wrth gwrs, roedd hon yn berthynas hyfforddwr/myfyriwr hollol amhriodol, ond fe wnaethon ni lwyddo i'w chadw'n gyfrinachol nes bod fy secondiad dwy flynedd wedi dod i ben.
3. Hafod Elwy. Ers i mi brynu fy nhŷ cyntaf, rydw i wedi symud naw gwaith, bron pob un i leoedd braf, ond doedd yr un ohonyn nhw'n cymharu â gwychder y lle hwnnw mewn gwirionedd, mewn glaw, eira neu hindda. Er gwaethaf y lleoliad anghysbell, roedd gennym gymydog da, Arfon Roberts, a oedd yn ffermio'r tir cyfagos ac yn cyflenwi gwair a gwellt i ni. Roedd llawer o waith caled ynghlwm â'r lle ond roedd yn werth chweil.



*Roger a'i wyrion*

*Beth sy'n eich gwneud chi'n flin a beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?*

Dydw i ddim yn un sy'n mynd yn flin yn hawdd iawn. Mae'n debyg does gen i ddim llawer o gydymdeimlad â phobl sy'n gallu gweithio ond yn dewis byw oddi ar eraill. Rydw i hefyd yn mynd ychydig yn flin wrth weld collnod diangen neu yn y lle anghywir!

Dw i'n meddwl fy mod i'n hapus y rhan fwyaf o'r amser ac mae hynny oherwydd

## Dod i adnabod. . . parhad

byw mewn ardal braf, cael teulu o dair cenhedlaeth o 'nghwmpas i, a gwylio fy llysiau'n tyfu.

*Pwy byddech chi'n ei wahodd i gael cinio gyda chi, yn fyw neu'n farw?*
Fel plentyn ac oedolyn ifanc roeddwn i'n arfer gwrando ar gerddoriaeth ar y radio, gan gynnwys gorsafoedd radio answyddogol fel Radio Caroline. Daeth hynny i ben rywbryd yn yr 1980au wrth i'r gerddoriaeth newid a fy mywyd i newid hefyd, ond ychydig flynyddoedd yn ôl des i ar draws Boom Radio. Er mawr syndod, un o'r DJs oedd Roger Day – roeddwn i'n arfer gwrando ar hwn ar Caroline. Roedd o'n dal i ddarlledu sioe ddyddiol, bellach yn ei 80au, ac yn chwarae'r math o gerddoriaeth dwi'n ei hoffi. Dwi'n anfon ato yn awgrymu caneuon i'w chwarae ac mae'n gwneud hyn yn rheolaidd, a dwi'n meddwl y byddai gennym ni lawer yn gyffredin.

*Beth rydych chi fwyaf balch ohono?*
Hafod Elwy, fwy na thebyg. Troi adeilad mawr, tipyn o adfail, yn fusnes llwyddiannus, yn bennaf trwy waith caled. Cawsom 5 seren aur gan Groeso Cymru, a buon ni'n magu moch cyfrwyog – *Saddleback*, gwartheg duon Cymreig, defaid mynydd, ieir a gwyddau o safon dda iawn. Fodd bynnag, gall y busnes gwely a brecwast ddod yn dipyn o fwrn, gan eich bod hi'n gorfod bod ar gael drwy'r amser, a dwi ddim yn siŵr a fyddwn i eisiau gwneud hynny nawr, a minnau bellach yn 70 oed.


**Cyngor Sir Ddinbych**



**Merfyn Parry**
Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446
*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*


## Llan Llanast

Ym mis Mehefin, clywsom stori Iesu yn galw ei ddisgyblion. Roedd rhai ohonyn nhw'n bysgotwyr yn trwsio eu rhwydi ar lan y môr, a gofynnodd Iesu iddyn nhw adael popeth a'i ddilyn. Mae'n rhaid eu bod wedi gweld rhywbeth arbennig iawn ynddo, oherwydd gwnaethon nhw'r hyn y gofynnodd Iesu iddyn nhw'i wneud, a'i ddilyn. Pobl gyffredin oedden nhw, ond drwy Iesu roedden nhw'n gallu gwneud pethau rhyfeddol.

Gwnaethom ni amrywiaeth o grefftau yn ymwneud â physgod a chychod, ac yna mwynhau bysedd pysgod i de!

Mae croeso i bawb ddod i'n sesiwn nesaf ar 12 Gorffennaf cyn ein gwyliau haf, ac ni fydd Llan Llanast ym mis Awst.





# Cyngerdd
**Côr Meibion Caerwys**
**a cherddorion ifanc lleol**
**Nos Sadwrn 10 Hydref am 7**
**Neuadd y Pentre, Llandyrnog**
**Toccynnau £10, plant am ddim**
**Yr elw at Eglwys St Tyrnog**
**COFNODWCH Y DYDDIAD!**

# Diwrnod Hwyl Llandyrnog 2026

Wel am ddiwrnod ardderchog! Roedd gweld cymaint o bobl yn dod at ei gilydd yn wych, ac rydyn ni'n gobeithio bod pawb a ddaeth draw wedi cael cymaint o hwyl â ni. Diolch o galon i'r tîm o All Elite Sports am drefnu a rhedeg twrnamaint pêl-droed y plant. Roedd safon y bêl-droed drwy'r dydd yn ardderchog.

**Canlyniadau**




1af - The Reds
2ail - Llanfair Lads
3ydd - BeSpoke United

**Chwaraewr gorau'r twrnamaint:**
Llongyfarchiadau i Gwilym Edmunds o dîm Llanfair Lads a oedd yn llawn haeddu'r wobr.



**Gêm timau'r Gorffennol/y Presennol**
Aeth Tîm y Presennol ar y blaen yn gynnar diolch i daran o ergyd gan Alfie Harrison, ond dangosodd pobl hŷn Llandyrnog bod digon ar ôl yn y tanc! Diolch i gôl yr un gan Gaz Martin, Simon Brown, a Jonny Slater, tîm y Gorffennol enillodd, 3–1.

**Diolchiadau arbennig**
**Tîm y barbeciw**
Diolch o galon a fu'n helpu i gadw'r bwyd i fynd drwy'r dydd. Diolch yn arbennig i Elfor Morris, a fu'n gofalu am y barbeciw am dros bedair awr, gyda Tuds, Ian a Clive.



**Tîm y gegin**
Diolch i Selina, Carol, Sarah, Sharon a TJ (a fu'n gwerthu tocynnau raffl hefyd), ynghyd â phawb arall a fu'n brysur yn y gegin drwy'r ddydd. Gwerthfawrogwyd eich gwaith caled yn fawr.
**Bara Henllan**
Diolch yn fawr i Fara Henllan am y cyfraniad hael o dros 100 o roliau bara.
**J.H. Jones a'i Feibion, Dinbych**
Diolch i gyn-chwaraewr Llandyrnog, Dafydd Roberts, a'r tîm yn J.H. Jones a'i Feibion am y selsig a byrgers a fwynhawyd gan bawb.
Fyddai pethau fel hyn ddim yn digwydd heb y gwirfoddolwyr, y noddwyr, y chwaraewyr, y trefnwyr a'r cefnogwyr sy'n rhoi o'u hamser i wireddu'r cyfan.

# Diwrnod Hwyl: parhad

Diolch i bawb a ddaeth, a fu'n cefnogi, yn chwarae, yn cyfrannu neu'n gwirfoddoli. Gobeithio'ch bod chi wedi mwynhau'r diwrnod gymaint â ni.

*Sion Morris*

**Gemau cyn dechrau'r tymor ym mis Gorffennaf**

4ydd: CPD Sychdyn United 1.30pm
10fed: Llandudno Amateurs (G) 6.45pm
14eg: CPD Cerrigydrudion (G) 6.45pm
18th: Holywell United (G) 1.30pm

I ddarllen erthygl ardderchog ar hanes Clwb Pêl-droed Llandyrnog, ewch i https://nwsport.co.uk/2026/04/30/special-feature-llandyrnog-united-football-club-celebrates-its-golden-jubilee-season/

# Cynghrair yr Haf



Diolch o galon i'r chwaraewyr a fu'n cynrychioli CPD Llandyrnog yn y twrnamaint dan 11 oed. Fe wnaethon nhw eu gorau glas ym mhob gêm. Diolch hefyd i Ethan ac Olly am eu help drwy'r flwyddyn gyda sesiynau pêl-droed y plant.

*Jimmy McNally*

# Taith Parch








Daeth Taith Parch y Gwarchodlu Cymreig 2026 at gofeb y Gwarchodfilwr Peter Edwards yn Ysgol Bryn Clwyd y mis diwetha. Mae hwn yn ddigwyddiad sy'n coffáu'r Gwarchodfilwyr Cymreig a fu farw yn Rhyfel Ynysoedd Falkland, 1982.

**CYMHORTHFA'R HEDDLU**
**PANED GYDA'R PLISMON**

**Pnawn dydd Gwener, 10 Gorffennaf, 1 tan 2**

# Hanesion Hazel

Yn 2026 dwi'n dathlu pen blwydd 'arbennig' a dwi wedi pendroni ynghylch a ydw i wedi cyrraedd yr oed pan fyddwn ni'n hel atgofion am y gorffennol? Mae hiraeth yn emosiwn cymhleth sy'n cyfuno dyheu sentimental am ddoe ond gyda thristwch dwys bod amser wedi mynd ac yn methu cael ei adfer.

Ymwelodd fy mrawd a'i wraig â fi yn ddiweddar ac fe benderfynon ni fynd i Amgueddfa'r 1950au yn Ninbych. Doedd gen i ddim diddordeb erioed mewn mynd yno, ond efallai oherwydd fy oed, fe awgrymais i ein bod ni'n gwneud. Gan fod fy mrawd sawl blwyddyn yn hŷn na fi, mae'n blentyn yr 1950au ac roedd yn cofio'n dda nifer o'r pethau a oedd i'w gweld. Roeddwn i'n eu cofio hefyd, yng nghartref fy nain.



Roedd y gegin felen yn union yr un fath â'r un lle bûm i'n helpu Nain i wneud bara, bisgedi a fferins. Roedd hi'n hoff iawn o wneud *coconut ice*, gan ddefnyddio cnau coco dysychedig – *dessicated*, llaeth tew – *condensed* (peth hanfodol yn ystod yr ail ryfel byd ac wedi'i ddogni, byddai hi'n dweud wrtha i, 'felly paid â'i wastraffu'), siwgr a lliw *cochineal* (wedi'i wneud o gyrff pryfed *Dactylopius coccus* benywaidd, wedi'u sychu a'u malu – ychafi!) Gallwch wneud y rhain yn gyflym iawn a byddan nhw'n cadw am dair wythnos mewn tun aerglos – *airtight*.

Hefyd roedd cymysgwyr â llaw a theclynnau nerthol yr 1950au a'r 1960au i'w gweld yn yr amgueddfa. Yn 1947–48 dyfeisiodd Kenneth Wood y cymysgydd bwyd Kenwood cyntaf, ac yn wir, roedd un gan Mam yn yr 1970au. Roedd hyn wedi chwyldroi gwneud cacennau ac roedd yn rhaid i bob cartref dosbarth canol gael cymysgydd trydanol. Ces i un pan oeddwn yn ifanc iawn, ond a dweud y gwir fe fyddai'n well gen i fod wedi cael Raleigh Chopper. Daeth hwn ar y farchnad yn 1969, a'r gwerthiant ar ei anterth rhwng 1972 ac 1985. Yn anffodus, ches i un erioed, dim ond Raleigh Twenty brown diflas ar fy mhen blwydd yn 10 oed yn 1976 (a dyna ddatgelu fy oed!). Hwn werthodd orau i gwmni Raleigh yn 1977, er bod y nifer a werthwyd wedi gostwng ar ôl hynny. Dydy hynny'n fawr o syndod gan fod y beic yn rhy drwm ac yn rhy ymarferol a chall o lawer i fi. Roeddwn i am neidio oddi ar rampiau, gwneud *wheelies* a gwneud argraff ar fy ffrindiau. Roedd y Chopper yn eicon ieuenctid yn y cyfnod, yn ffasiynol ac wedi'i fwriadu i ddangos eich hun. Ond Twenty ges i. Anaml iawn y bues i'n ei reidio ac yn ddiweddar fe ges i o hyd iddo yn yr atig, wedi'i anghofio, ond yn creu llawer o atgofion.

Pan oeddwn i'n 13 oed, roedd Dusky, fy



# The Wright Life

merlyn, wedi dod yn lle'r beic. Roedd Dusky yn un styfnig a drwg iawn. Fe ddes i adnabod Dusky pan oeddwn i'n dysgu marchogaeth, gan ei fod mewn stabl ger arena'r ysgol farchogaeth leol ac yn dianc yn aml. Byddai'r waedd, 'Tina (enw ei berchennog ar y pryd), mae dy ferlyn wedi dianc', yn torri ar draws ein gwersi. Prin y meddyliwn i y byddai Dusky yn symud o Lannau Merswy i Ogledd Cymru ac yn byw bywyd gwledig nes iddo fod yn 32 oed.

Mae ein profiadau yn sail i'n hunaniaeth unigryw, yn gadael i ni ddysgu, mynd drwy'r byd o'n cwmpas, a'u defnyddio wrth wynebau sefyllfaoedd yn y dyfodol. Gall eitemau fel y rheini yn amgueddfa'r 1950au ddeffro atgofion o'r gorffennol pell. Felly, peidiwch ag ofni mynd am dro lawr llwybr atgofion. Ewch i nôl yr hen luniau, chwilotwch yn yr hen focsys anghofiedig yn yr atig, a mwynhewch yr atgofion.

**Hazel**

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS


Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# y Gymdeithas Seryddiaeth

**Triongl yr haf**

Mae mis Gorffennaf yn adeg anhygoel i edrych ar y sêr, gyda'r llwybr llaethog yn ymestyn uwch ein pennau i driongl amlwg yr haf. I gael hyd i driongl yr haf, wynebwch y dwyrain, a chwiliwch am dair o'r sêr mwyaf disglair: Vega, Deneb ac Altair. Gyda'i gilydd, maen nhw'n ffurfiol triongl anferth, hawdd ei adnabod.




Wrth iddi dywyllu, fe welwch y patrwm anferth, hawdd ei adnabod, o sêr yn amlwg yn wybren y nos:

Vega: yn disgleirio'n llachar yng nghytser Lyra

Deneb: yn isel i'r dde o Vega. Mae'n angori Cygnos, yr Alarch

Altair: yn isel i'r chwith. Mae'r seren ddisglair hon yn perthyn i Acwila yr Eryr.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn ystafell isaf neuadd y pentre am 7 o'r gloch, nos Fawrth, 28 Gorffennaf.

Mae llawer yn ein disgwyl ni yn wybren y nos, felly daliwch ati i edrych i fyny!

# Y Gymdeithas Hanes

Yng nghyfarfod mis Mai cafwyd sgwrs gan Emrys Wynne '*Capel y Dyffryn – O'i ddechreuadau diymhongar*'.

Cafodd Emrys Wynne ei fagu yn ardal Graigfechan a Pentrecelyn. Mae'n gynghorydd Sir ers 2017 ac, ymysg cyfrifoldebau eraill, mae'n Gadeirydd Pwyllgor Llywio'r Gymraeg.

Sefydlwyd y Mudiad Methodistaidd Calfinaidd yn Nyffryn Clwyd yn 1749, pan symudodd Robert Llwyd a'i wraig Dorothy i Blas Ashpool, wedi iddo gael ei droi allan o'i gartref yng Nghilcain oherwydd ei argyhoeddiadau crefyddol.  Yn Llandyrnog, roedd Dorothy yn awyddus i osgoi mwy o wrthdaro fel y bu yng Nghilcain, ac ni chaniataodd i'w tŷ mawr gael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau crefyddol o gwbl.

Yn lle hynny, croesawodd Edward Pierce a'i wraig Magdalen yr addolwyr i'w bwthyn bychan, Tŷ Modlen, a'r ysgubor gyfagos. Trefnwyd y gwasanaethau fel na fyddent yn gwrthdaro â gwasanaethau'r eglwys blwyf.

Daeth nifer o bregethwyr amlwg i weinidogaethu i'r gynulleidfa fechan, a oedd wedi tyfu i 22 aelod erbyn 1776. Erbyn hynny, roedd Tŷ Modlen mewn cyflwr gwael. Felly adeiladwyd capel ar safle wrth ochr y ffordd i Bodfari. Cynhaliwyd y gwasanaeth cyntaf ddydd Sul y Pasg 1777 yn Capel Cefn Bithel.

Pan fu farw Robert Llwyd yn 1792, roedd nifer y gynulleidfa wedi cynyddu i 43. Heddiw, gellir gweld plac er cof amdano ar wal flaen Capel y Dyffryn, yn ogystal ag un arall yn eglwys y plwyf yn Llandyrnog.

Erbyn 1836, roedd Capel Cefn Bithel wedi mynd yn rhy fach i ddarparu ar gyfer y gynulleidfa gynyddol. Cyfnewidiwyd tir ar Gomin y Waen am yr hen gapel a lluniwyd cytundeb les am gyfnod o 2,000 o flynyddoedd, a rhent am un geiniog (1d) y flwyddyn.

Agorwyd y Capel presennol, Capel y Dyffryn, ym mis Mawrth 1837.

Yn 1861 adeiladwyd Tŷ Capel, er mwyn darparu cartref i'r gweinidog a'i deulu. Erbyn 1864 roedd 218 o aelodau a 21 o athrawon yn yr Ysgol Sul. Am 108 o flynyddoedd bu'r Capel yn cael ei arwain gan y Blaenoriaid, ond yn 1901, penodwyd y Parch. J. D. Jones yn weinidog cyntaf y capel ar gyflog blynyddol o £25.

Ym 1927, adeiladwyd festri helaeth, ac yn ddiweddarach y gegin a'r ystafell gemau.

Ym 1935, er mwyn coffáu'r man cyfarfod cyntaf yn Nyffryn Clwyd, yng nghae Cae Hir, Fferm Llangwyfan, cysegrwyd dau faen mawr o safle gwreiddiol Tŷ Modlen. Mae'r cerrig hyn yn dal i'w gweld heddiw wrth ymyl y llwybr troed Taith Tyrnog.

Ym 1949 cynhaliwyd cyfres o wasanaethau arbennig yng Nghapel y Dyffryn i nodi 200 mlynedd ers y cyfarfodydd cyntaf. Yn yr un flwyddyn, cafwyd trydan i'r capel.

Sefydlwyd urdd ieuenctid, Urdd y Bobl Ifanc, yn ystod gweinidogaeth y Parch. J. O. Ellis Jones. Ar y pryd, roedd y cyfarfodydd yn canolbwyntio ar weddi a thrafodaeth. Dros y blynyddoedd, fodd bynnag, mae'r Gymdeithas wedi datblygu ac ehangu i gynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol.



*Cymdeithasu ac edrych ar luniau'r arddangosfa ar ôl y sgwrs*

# Cyfarfod blynyddol pwyllgor y neuadd

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol cyffredinol neuadd y pentre ar 10 Mehefin.
Y swyddogion a etholwyd oedd:
Cadeirydd: G.Butler;
Is-gadeirydd: R.Griffith;
Ysgrifennydd: B.Davies;
Trysorydd a Chlerc Hurio: I.Butler;
Archwilydd: S.Davies

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad a diolchwyd am ei waith manwl drwy'r flwyddyn.

Yn anffodus mae Cyngor Sir Ddinbych, sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r adeilad, wedi defnyddio'r arian a ddyrannwyd i beintio'r neuadd i rywbeth arall. Mae'n gronfa gyffredinol a heb ei glustnodi i Landyrnog.

Mae'r neuadd yn brysur gyda sawl mudiad yn cyfarfod yno, a boreau coffi rheolaidd yn digwydd, i godi arian at elusennau amrywiol.

Mae hefyd yn dod yn fwy poblogaidd ar gyfer partïon pen blwydd plant ar benwythnosau. Dydy'r amod dim alcohol ddim yn rhwystr o gwbl i lwyddiant y neuadd.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n gofalwraig, Lyn, sy'n mentro allan ym mhob tywydd a phob awr o'r dydd a nos i baratoi ar gyfer y digwyddiadau hyn.

Mae gennym berthynas dda â'r ysgol, sy'n sicrhau bod y neuadd yn barod i'w defnyddio gan eraill ar ôl 5 o'r gloch y pnawn.

Cafwyd adroddiad gan y Sioe Flodau sy'n gysylltiedig â phwyllgor y neuadd a diolchwyd i John amdano. Mae'r sioe'n boblogaidd iawn a diolchwyd hefyd i Roger Warner sy'n gweithio'n dawel ac yn ddiwyd.

Mae angen rhagor o bobl i ddod ar bwyllgor y neuadd – rydyn ni'n gorddibynnu ar ychydig iawn o bobl. Y cyfan mae'n ei olygu yw dau gyfarfod y flwyddyn. Os oes gennych ddiddordeb ac yr hoffech rannu eich syniadau, eich profiad a'ch gweledigaeth, cysylltwch â Gwen neu â Bryn (rbrynd1@gmail.com).

# Rysáit

## Dau bwdin sydyn

***Syllabub* lemon**

¼ peint gwin gwyn
Sudd 2 lemon
3owns siwgr mân
½ peint hufen dwbl
2 wynwy (wedi'u chwipio)

Rhowch y gwin, y sudd lemon a'r siwgr mewn powlen. Gadewch iddyn nhw am ryw 15 munud.
Chwipiwch yr hufen dwbl, ac ychwanegwch y gwin, y sudd lemon a'r siwgr yn araf.
Chwipiwch y gwynwyau mewn powlen lân a chymysgwch yr holl gynhwysion yn araf.
Addurnwch â ffrwythau ffres a mwynhewch.
Ni fydd yn cadw'n hir iawn.

**Mousse**

1 bloc o jeli – unrhyw flas
150 ml dŵr poeth
2 tun bach llaeth anwedd – *evaporated*

Toddwch y jeli a'i adael am awr i oeri.
Chwisgiwch/chwipiwch y llaeth anwedd nes y bydd wedi dyblu mewn maint – tua 6 munud.
Cymysgwch y llaeth â'r jeli a'u rhoi mewn oergell dros nos.
Addurnwch ag unrhyw ffrwythau.

*Mary Mars Lloyd*

# Gild Trefoil

Yng nghyfarfod mis Mehefin buon ni'n chwarae bingo i ennill siocledi! Bydd y cyfarfod nesaf yn barti pen blwydd.

Ddydd Mercher, 22 Gorffennaf, bydd Band Pres Ieuenctid y Lions yn chwarae yn Eglwys y Santes Fair, Llanfair Talhaearn. Bydd elw'r cyngerdd yn cael ei rannu rhwng yr eglwys a Thŷ Clwyd, Canolfan Breswyl a Safle Gwersylla Geidiau Clwyd.

# Y Clwb Garddio

Ymweliad â gardd Tony Burrows yn Ffordd Las oedd ein taith haf. Er gwaetha'r posibilrwydd o gawodydd, roedd gweld y planhigion hardd niferus yng ngardd Tony a phrofi'r arogleuon ysgafn yn bleser pur. Roedd y coed tal, y llwyni yn eu blodau a'r planhigion parhaol yn drawiadol iawn. Dyma ardd wedi'i chreu gan wir 'arddwr'.

Cawsom luniaeth ysgafn ar y patio i gyfeiliant sïo'r gwenyn ar y lafant a chân aderyn du. Roedd y sgwrsio dros baned yn trafod planhigion, wrth gwrs, ac fe adawon ni yn byrlymu gyda syniadau newydd am blanhigion i'n gerddi ni ein hunain.



*John Rowlands, cadeirydd y clwb (ar y chwith) gyda Tony Burrows*




Mae Clwb Garddio Llandyrnog yn diolch yn fawr i Tony am y daith ardderchog o gwmpas ei ardd. Mae ei waith caled a'i hoffter mawr o blanhigion yn amlwg iawn. Fe roddodd croeso arbennig ni. Diolch, Tony, am rannu'ch gardd â ni.

Bydd y clwb yn anfon £100 at Mind Dyffryn Clwyd a gasglwyd ar y noson.

Bydd ein prif raglen yn dechrau eto nos Fawrth, 8 Medi, pan fydd Dawn Gough yn dod i sgwrsio am y Garddwr Crefftus. Rydyn ni'n cyfarfod ar ail nos Fawrth y mis am 7 o'r gloch yn Neuadd y Pentre, felly os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'r clwb, dewch draw neu anfonwch e-bost at LlandyrnogGardeners@outlook.com.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer
Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan
i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Gair gan yr offeiriad



*Llun: Clwb Garddio Llandyrnog, o ardd Tony Burrows*

Rydyn ni bellach yn nhymor yr haf ac mae'r gerddi'n blodeuo. Yn y Gwanwyn, mae'r hadau a heuwyd wedi cael eu bwydo a'u dyfrio gan haul a glaw Duw, wedi gwreiddio ac wedi ffynnu yn y gofal a roddwyd iddyn nhw. Maen nhw wedi'u gwreiddio yng ngহariad y rhai a'u heuodd.

Mae gan goed wreiddiau arbennig o dda – maen nhw'n angori'r goeden yn gadarn yn y pridd, gan amsugno dŵr a maetholion y mae eu hangen ar y goeden i'w galluogi i dyfu'n iach ac yn hyblyg, gan siglo yn y gwynt, ond ar y cyfan, heb ildio iddo. Drwy'r holl dymhorau newidiol, mae gwreiddiau cryf y goeden yn ei chadw'n gadarn ac yn iach.

Mae'r Ysgrythur yn dweud wrthym y gallwn ninnau hefyd fod wedi'n gwreiddio gadarn – mewn cariad – trwy ras Duw. Yng nghariad Duw mae gennym ni bopeth y mae ei angen arnom ar gyfer twf, iachâd, ac egni, gan ein galluogi i gynhyrchu ein ffrwyth ein hunain – cariad, llawenydd, heddwch, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth.

Cariad Duw yw'r peth cyson sy'n ein galluogi i oroesi pob tymor o'n bywydau. Mae'n ein trawsnewid ac yn ein hadnewyddu dro ar ôl tro.

Mewn byd lle mae stormydd bywyd yn ein hysgwyd yn aml, mae angen gwreiddiau arnom a fydd yn ein dal yn gadarn pan fydd bywyd yn heriol. Mae'r Ysgrythur yn ein dysgu sut i aros yn gyson – wedi'n gwreiddio yng nghariad cadarn Duw, gan ein galluogi i wrthsefyll y stormydd sy'n dod ar ein traws; wedi'n hangori yn Iesu, fel y gweddïodd Sant Paul dros yr eglwys yn Effesus (Effesiaid 3:16 –18).

Gadewch inni weddïo y bydd, o'i gyfoeth gogoneddus, yn ein cryfhau â nerth trwy ei Ysbryd yn ein bodolaeth fewnol. Felly gall Crist drigo yn ein calonnau trwy ffydd, a gweddïwn y bydd gennym ni i gyd, wedi ein gwreiddio a'n sefydlu mewn cariad, nerth i ddeall pa mor eang a hir ac uchel a dwfn yw cariad Crist. Pob bendith i chi yn y tymor hwn.

*Y Parchedig Ganon Juliet Fraser*

**Prompt Travel**
**Taxi & Private Hire**
**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**
Incorporating Vale Private Hire
**01824 790485**
**07974 862027**
**Teithiau Prydlon**
**Tacsi a Hurio Preifat**

# Project ymgysylltu â chelfyddyd



Daeth creadigrwydd yn fyw yn Llandyrnog wrth i ddisgyblion o Ysgol Bryn Clwyd, trigolion, gweithwyr gofal a chymorth, gwirfoddolwyr, staff addysgu ac artistiaid proffesiynol ddod ynghyd ar gyfer rhaglen o weithdai celf cynhwysol.

Creodd y prosiect fannau croesawgar yn yr ysgol ac yn Siop Gymunedol a Swyddfa Bost Llandyrnog lle gallai plant ac oedolion gyfarfod, dysgu a chreu gwaith celf ochr yn ochr â'i gilydd. Dysgodd y cyfranogwyr am dynnu llun wrth sylwi ar bethau, clai, deunyddiau naturiol, gwydr, adrodd straeon a darlunio — gan ddod i ddeall nad oes un ffordd 'gywir' o fod yn greadigol.

Bu'r artistiaid proffesiynol, Emma Holmes a Verity Pulford, yn helpu'r rhai a fu'n cymryd rhan i sylwi'n fanwl, arbrofi'n hyderus ac ymddiried yn eu syniadau eu hunain.

Yn y siop, trodd sesiynau braslunio Emma leoliad cyffredin yn fan i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a sgwrsio. Rhoddodd gweithgareddau ymarferol Verity gefnogaeth ymarferol i ddisgyblion a'r rhyddid i ddatblygu eu hymatebion eu hunain.

Diolch o galon i bawb a fu'n helpu i wneud y project yn bosib, ac i Gelfyddydau a Busnesau Cymru, Procter Johnson, Cyngor Cymuned Llandyrnog, a Chanolfan Grefftau Rhuthun am eu cymorth a'u nawdd.

*Patricia Mackinnon-Day*






# Ysgol Bryn Clwyd

Bu disgyblion Ysgol Bryn Clwyd yn brysur iawn yn ystod yr hanner tymor hwn gyda sesiynau nofio, pontio Blwyddyn 6, ymarferion y ddrama a llawer mwy.

Aeth Blynyddoedd 2 a 3 i Bentrellyncymer i gael cyfle i ganŵio am y tro cyntaf ac i archwilio'r goedwig yno.



Aethom fel ysgol gyfan ar daith i Amgueddfa'r Byd yn Lerpwl, lle bu Dosbarth Hedfan yn ymarfer eu sgiliau braslunio ar gyfer prosiect celf , a bu Dosbarth Tyfu yn archwilio deinosoriaid a'r gofod fel rhan o'u thema teithio drwy amser.

Yn olaf, roeddem yn lwcus gyda'r tywydd y trydydd tro yn olyno ar gyfer ein noson chwaraeon a'r ffair haf. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad, a llongyfarchiadau i dîm Creadigol Connie, enillwyr y mabolgampau eleni.



# Eisteddfod Llandyrnog

Cynhaliwyd pwyllgor nos Fercher, Mehefin 3ydd i drefnu eisteddfod 2026. Roedd deg yn bresennol a Ffiona yn cadeirio.

Bydd yr eisteddfod yn cael ei chynnal eleni ar nos Wener, Hydref 16eg yn y Neuadd a'r gwaith cartref i fod i mewn erbyn dydd Mercher, Hydref 7fed.

Mae'r eisteddfod yn cynnig cyfle i blant ac ieuenctid yr ardal i berfformio o flaen cynulleidfa a magu hyder ar gyfer y dyfodol. Edrychwn ymlaen am eich cefnogaeth gan obeithio y cawn eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

Cynhelir Bore Coffi yn y Neuadd ar Fedi 12fed i godi arian at gynnal yr eisteddfod. Cofiwch ddod draw am baned a bydd y stondinau arferol yno.

# Cinio i godi arian

Cafwyd cinio yng nghartre Louise Eccleston i godi arian at eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan. Mewn tywydd hyfryd, roedd yn ddigwyddiad pleserus iawn, a chodwyd £320 tuag at y coffrau. Diolch i Louise am y bwyd ardderchog!



# Y Cyngor Cymuned

Trafodwyd y materion canlynol yng nghyfarfod mis Mehefin y Cyngor:

- Roedd digwyddiadau a dynnodd sylw Heddlu Gogledd Cymru cynnwys:
    - Cerbyd amheus yn ymweld â thai gwledig – byddai Heddlu Gogledd Cymru yn falch o weld ymddygiad felly'n cael ei adrodd i'r gwasanaeth 101 i weld a oes patrwm yn dod i'r golwg
    - Byrgleriaeth – dyn dieithr yn y tŷ, efallai ei fod wedi camgymryd y cyfeiriad. Doedd dim byd wedi'i ddwyn
    - Damwain yn ymwneud â cherbyd danfon nwyddau
    - Damwain yn ymwneud â moped – neb wedi'i anafu
    - Ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng cymdogion ynghylch problemau parcio – cyngor wedi'i roi i'r ddwy ochr.
- Ymgyrch Atal: Mae hwn yn rhan o'r cynllun Gan Bwyll. Yn dilyn pryderon am gyflymder traffig o gwmpas yr ardal, roedd Ymgyrch Atal yn bresennol y tu allan i Ysgol Bryn Clwyd a gwiriwyd cyflymder ceir. Ataliwyd ceir a oedd yn mynd yn rhy gyflym a rhoi cyngor i'r gyrwyr. Y cyflymder uchaf oedd 32mya mewn ardal 20mya.
- Cynllunio: Doedd dim gwrthwynebiad i gais diwygiedig i ymestyn Llwyn Helyg.
- Cyfethol: Cyflwynodd tri ymgeisydd ddigon o wybodaeth i'w hystyried ar gyfer y ddwy sedd wag. Ar ôl pleidleisio, penderfynwyd cynnig y seddi gwag i Heather Powell a Dafydd Roberts
- Yr archwiliad: Gofynnodd yr aelodau am fwy o eglurhad cyn ei bod hi'n bosib dychwelyd y datganiad.
- Cae Nant: Mae'r Cyngor yn disgwyl cadarnhad gan Gyngor Sir Ddinbych am y swm cymudedig cyn ei bod hi'n bosib dechrau ar y gwaith o osod ffens.
- Pecyn bioamrywiaeth: Mae'r Cyngor wedi llwyddo yn ei gynnig am becyn blodau gwyllt i'w plannu ym mis Hydref.


DBP Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

Mike Neumann
Printers Ltd

- Business printing
- Personalised printing
- Office supplies
- Helium balloons



**01745 814067**
**07766 807498**

41 Vale Street, Denbigh LL16 3AH
neumannprinters@aol.com
neumannprintersdenbigh.co.uk